

Gweithredwch ar eich morgais llog yn unig nawr

Os oes gennych forgais llog yn unig, mae'n hanfodol bod gennych gynllun mewn lle i glirio'r cyfalaf

Os na gliriwch chi'r cyfalaf, efallai y bydd rhaid i chi werthu'ch cartref er mwyn ad-dalu'r morgais pan ddaw'r tymor i ben. Yn ogystal, mae'n bosibl na fyddwch yn medru symud cartref nac ail-forgeisio i ddêl ratach os yw gwerth eich cartref wedi cwmpo, neu wedi aros yr un fath hyd yn oed, gan nad yw rhai darparwyr benthyciadau bellach yn cynnig benthyciad yn ôl gwerth eiddo mor uchel ag y gwnaethpwyd yn y gorffennol. Mae amser yn brin – dilynwch y camau isod i roi eich hun ar y trywydd iawn.

Os nad oes gennych gynllun...

Gweithredwch nawr! Hyd yn oed os ydych chi flynyddoedd i ffwrdd o orfod ad-dalu eich morgais, po hwyaf yr oedwch, y mwyaf yw'r effaith ar eich cyllideb. Efallai y gallwch wneud newidiadau i'ch morgais ar unrhyw adeg, hyd yn oed os ydych chi wedi'ch clymu i gyfradd sefydlog.

Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi ydy hi i sicrhau y bydd y cynllun ad-daliad rydych yn ei ddewis yn ddigon i glirio'ch morgais.

Dilynwch y camau yma:

1. Cyfrifwch unrhyw gynilion sydd gennych yn barod a phenderfynwch os allwch ryddhau rhywfaint o arian er mwyn lleihau'r benthyciad. Nawr cysylltwch â'ch darparwr i ofyn os oes modd i chi wneud gordaliadau. Holwch os oes unrhyw ffioedd ynghlwm â gwneud hynny.
2. Defnyddiwch **Cynllunydd Cyllideb** ar-lein y Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn moneyadvice.service.org.uk/cynllunydd-cyllideb i ganfod faint o arian sydd gennych dros ben bob mis.
3. Cysylltwch â'ch darparwr a holwch am newid i forgais cyfalaf a llog – mae hyn yn golygu y byddwch yn dechrau talu'r benthyciad gwreiddiol yn ôl. Cofiwch holi am y ffioedd.
4. Os yw'ch cyllideb yn dynn, holwch am newid i forgais ar sail rhan ad-dalu a rhan llog yn unig i gychwyn, neu estyn cyfnod eich morgais o bosib i roi amser ychwanegol i gyfrannu mwy o arian tuag at y benthyciad gwreiddiol.
5. Neu siaradwch â chynghorydd ariannol i ganfod faint sydd angen i chi'i fuddsoddi nawr i fedru talu'r morgais yn llwyr erbyn diwedd y cyfnod – cofiwch y gall gwerth buddsoddiadau godi neu gwmpo.

Gallwch chwilio am gynghorydd ar wefan

moneyadvice.service.org.uk/dewis-cynghorydd-ariannol

Oes gennych gynllun yn barod?

Dyna newyddion da! Serch hynny, mae'n bwysig eich bod yn ei wirio'n rheolaidd i wneud yn siŵr eich bod ar y trywydd cywir i fedru talu'ch morgais yn llwyr. Os yw'ch cynllun yn tangyflawni, po gynted y gweithredwch, yr hawsaf ydy hi i gyfrannu at y gwahaniaeth.

Dilynwch y camau yma:

1. Gwiriwch faint o fisoedd a blynnyddoedd sydd yn weddill ar eich morgais.
2. Cysylltwch â'ch darparwr buddsoddiad, rheolwr cronfeydd neu gynghorydd ariannol a gofynnwch iddynt a ydy'ch buddsoddiadau ar drywydd i ad-dalu'ch morgais ar ddiwedd tymor y morgais.
3. Os nad ydynt, holwch faint yn ychwanegol sydd arnoch angen ei fuddsoddi er mwyn cael digon i ad-dalu eich morgais pan ddaw'r tymor i ben.
4. Nawr cysylltwch â'ch darparwr i holi os gallwch wneud gordaliadau. Holwch am y ffioedd sydd ynghlwm â gwneud hynny, os caiff ei ganiatáu, a gwiriwch gyda'ch darparwr i ganfod os bydd rhaid i chi dalu unrhyw ffioedd talu'n gynnar.
5. Defnyddiwch **Cynllunydd Cyllideb** ar-lein y Gwasanaeth Cyngori Ariannol i gyfrifo faint y gallwch ei fforddio bob mis, naill a'i i ychwanegu at eich buddsoddiadau neu i wneud gordaliadau ar eich morgais.
6. Gofynnwch i'ch darparwr benthyciadau, darparwr buddsoddiad neu gynghorydd ariannol i'ch helpu i ddewis y ffordd orau o weithredu.

Trowch drosodd i weld y Cwestiynau Cyffredin



Cwestiynau Cyffredin

Ym mha ffordd mae morgais llog yn unig yn wahanol i forgais cyfalaf a llog?

Gyda morgais llog yn unig, mae'r taliadau rydych chi'n eu gwneud ond yn mynd tuag at dalu'r llog ac ni fyddwch chi'n talu'r swm benthyciad gwreiddiol hyd nes y dyddiad terfynol. Er enghraifft, os ydych yn cael benthyciad £100,000 dros 25 mlynedd, bydd y £100,000 llawn yn daladwy ar ddiwedd y tymor 25 mlynedd. Gyda morgais cyfalaf a llog, bydd rhan o'ch taliadau misol yn mynd tuag at dalu'r benthyciad, a bydd y gweddill yn cael ei ad-dalu'n llawn ar ddiwedd y tymor.

Pam ydw i wedi derbyn llythyr oddi wrth fy narparwr benthyciadau ynglŷn â fy morgais llog yn unig er fy mod yn talu ar amser?

Mae eich darparwr yn gwybod bod eich cartref yn bwysig i chi ac mae'n ceisio deall pa gynllun ad-dalu sydd gennych mewn lle. Felly mae'n werth rhoi galwad iddyn nhw cyn gynted â phosib er mwyn trafod eich opsiynau.

Dwi'n pryderu na fydda i'n gallu talu fy morgais yn llwyr - beth ddylwn i wneud?

Siaradwch â'ch darparwr benthyciadau yn gyntaf – mi fyddan nhw'n awyddus i drafod eich sefyllfa gyda chi ac yn eich helpu i ddarganfod pa opsiynau sydd ar gael os ydych chi'n amau na fyddwch yn medru talu'ch morgais yn llwyr erbyn y dyddiad y cytunwyd arno.

O ble arall fedra i gael cyngor ynglŷn â beth i wneud am fy morgais llog yn unig?

Os na fedrwch ddod o hyd i ddatrysiaid gyda'ch darparwr morgais, medrwch gael cyngor am ddim. Chwiliwch am 'Cyngor ariannol am ddim' yn

moneyadviceservice.org.uk/cy

A fydd fy nghartref yn cael ei ailfeddiannu os na fedraf ad-dalu fy morgais ar amser?

Dim ond pan fetho popeth arall y caiff eich cartref ei ailfeddiannu – bydd darparwyr benthyciadau o hyd yn gwneud eu gorau glas i gydweithio â chi i ddod o hyd i ddatrysiaid gwell. Serch hynny, mae'n bosib y bydd rhaid i chi werthu'ch tŷ i ad-dalu'ch morgais os nad oes gennych gynllun ad-dalu arall.



Rydych chi wedi cymryd y cam cyntaf. Nawr llenwch eich cynllun personol i aros ar y trywydd cywir:

Gweithred	Pryd	Wedi'i wneud
Darllenwch y daflen hon	Nawr	✓

Ewch i'r afael â'ch morgais llog yn unig heddiw. Cewch mwy o fanylion trwy chwilio am 'morgeisi llog yn unig' yn moneyadviceservice.org.uk/cy

Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn wasanaeth annibynnol ac wedi'i sefydlu gan y llywodraeth i helpu pobl gwneud y mwyaf allan o'i arian trwy roi cyngor ariannol diduedd a di-dâl i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

Rydyn ni'n rhoi cyngor, awgrymiadau ac offer ar ystod eang o themâu ariannol.

Ewch i

moneyadviceservice.org.uk/cy

Neu ffoniwch linell y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ar
0800 138 0555*

Typetalk

1800 1 0800 915 4622

Os hoffech y canllaw hwn mewn fformat Braille, print bras neu ar ffurf sain cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Galwadau am ddim. I'n helpu ni i gynnal a gwella ein gwasanaeth, gall galwadau cael eu recordio neu eu monitro.

Gwybodaeth yn gywir adeg mynd i'r wasg (Ebrill 2018). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.